Cofnodion Cyfarfod y PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU
a gynhaliwyd yn Hybrid yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron
ac o bell drwy gynhadledd fideo ddydd Mercher, 25 Ionawr 2023

YN BRESENNOL: Mrs Caroline White (Cadeirydd), Mr Alan Davies, Miss Caryl Davies a Ms Carol Edwards (Aelodau Annibynnol)

Y Cynghorydd Caryl Roberts (Aelod Etholedig)
Y Cynghorwyr Delyth James a Jan Culley (Cynghorwyr Tref a Chymuned)

Aelodau Etholedig eraill yn bresennol: Y Cynghorwyr Bryan Davies, Elizabeth Evans a Gareth Lloyd (Arweinwyr Grwpiau) ynghyd â'r Cynghorydd Sian Maehrlein

HEFYD YN BRESENNOL:
Ms Elin Prysor (Swyddog Monitro)
Mrs Lisa Evans (Swyddog Craffu a Safonau)
Mrs Dana Jones (Swyddog Democrataidd a Safonau)

(10.00am-12:45pm)

1 **Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorydd Gwyn Evans a John Weston am na fedrent ddod i'r cyfarfod.

2 **Datgelu buddianau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu**

Roedd Miss Caryl Davies wedi datgan buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu yn eitem 11 ar yr agenda.

Roedd Mrs Dana Jones, Swyddog Democrataidd a Safonau, wedi datgan buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu yn eitemau 5(i) hyd 5 (vi) ar yr agenda. Gadawodd y cyfarfod tra oedd y ceisiadau hyn yn cael eu hystyried. Gwnaeth Mrs Lisa Evans, Swyddog Craffu a Safonau, gymryd y cofnodion tra oedd y ceisiadau hyn yn cael eu hystyried.

3 **Gweithdrefn**

CYTUNWYD y byddai cais hwyr y Cynghorydd Sian Maehrlein am ollyngiad, yr eitem parthed Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol yn hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Aelodau Cyngor Sir Ceredigion - gan gynnwys y dyletswyddau sy'n ofynnol o dan adrannau 62-63 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 - a Thempled Cydymffurfio Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol, yn cael eu hystyried gyntaf ar yr agenda

4 **Cynghorydd Sian Maehrlein, Cyngor Sir Ceredigion**

Cafwyd cais dyddiedig 19 Ionawr 2023 gan y Cynghorydd Sian Maehrlein, Cyngor Sir Ceredigion, yn gofyn am ollyngiad ynghylch y tarmac yn ystâd Maesglas,

Aberteifi. Roedd ganddi dri o berthnasau yn byw ar yr ystâd. Roedd mwy na 200 o dai a byngalos yn yr ystâd, mae'n llwybr bysiau a gofynnwyd iddi sawl gwaith i holi'r Cyngor ynghylch ail-darmacio.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Maehrlein siarad a phleidleisio ynghylch mater tarmac yn unig ar y sail canlynol:
bod natur buddiant yr aelod yn gyfryw fel na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn berthnasol iddo yn niweidio hyder y cyhoedd yn y modd y mae busnes yr awdurdod perthnasol yn cael ei gynnal
(Rheoliad 2 (d)), a hefyd
(e) bod y buddiant yn gyffredin i'r aelod ac i gyfran arwyddocaol o'r cyhoedd. (Rheoliad 2(e)).
Rhoddwyd y gollyngiad am gyfnod o 12 mis.

**5 Trafod gydag arweinwyr y pleidiau ddulliau o hybu a chynnal safonau uchel drwy ymddygiad gan Aelodau Cyngor Sir Ceredigion i gynnwys y dyletswyddau sy'n ofynnol o dan Adrannau 62-63 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

**Trafod gydag arweinwyr y pleidiau ddulliau o hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Aelodau Cyngor Sir Ceredigion gan gynnwys y dyletswyddau sy'n ofynnol o dan Adrannau 62-63 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Cynghorydd Bryan Davies (Arweinydd y Cyngor ac Arweinydd Grŵp Plaid Cymru), y Cynghorydd Gareth Lloyd (Arweinydd y Grŵp Annibynnol) a'r Cynghorydd Elizabeth Evans (Arweinydd Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol) am ddod i'r cyfarfod i rannu barn ar hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel yng Ngheredigion.

Adroddwyd bod Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod dyletswyddau newydd ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol a phwyllgorau safonau. Y rhannau perthnasol yw adrannau 62 a 63.
O ran dyletswyddau arweinwyr grwpiau gwleidyddol mewn perthynas â safonau ymddygiad, mae Adran 52A o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn datgan bod yn rhaid i arweinydd grŵp gwleidyddol sy'n cynnwys aelodau o gyngor sir yng Nghymru gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau'r grŵp; a rhaid iddo gydweithredu â phwyllgor safonau'r cyngor.
Yn adran 54 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (swyddogaethau pwyllgorau safonau), mae gan bwyllgor safonau cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru hefyd y swyddogaethau penodol canlynol—
(a) monitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor â'u dyletswyddau o dan adran 52A(1),
(b) cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor ynghylch materion sy'n ymwneud â'r dyletswyddau hynny.

Adroddwyd bod arweinwyr gwleidyddol Cyngor Sir Ceredigion yn cael eu gwahodd yn flynyddol i'r Pwyllgor Moeseg a Safonau i drafod y ffyrdd o hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan Aelodau Cyngor Sir Ceredigion. Adroddwyd ei bod

bellach yn angenrheidiol i Arweinwyr Grwpiau ystyried y dyletswyddau ychwanegol sydd arnynt i gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau'r grŵp. Hefyd, sut i gydweithredu â phwyllgor safonau'r cyngor, a sut y gellir dangos tystiolaeth o hyn.
Dywedodd yr arweinwyr gwleidyddol eu bod yn croesawu'r canllawiau hyn gan eu bod yn rhywbeth i gyfeirio atynt i gadarnhau bod y safonau'n cael eu parchu.

Pwysleisiodd holl arweinwyr y Cyngor mor bwysig oedd gwaith y Pwyllgor wrth hyrwyddo safonau ymddygiad uchel. Gwnaethant adrodd ar eu cyfarfodydd grŵp lle trafodwyd materion safonau a'r angen iddynt barchu swyddogion y Cyngor ac iddynt hwythau barchu’r aelodau.
Cytunwyd hefyd fod trefniadau yn cael eu gwneud i ddarparu’n fuan hyfforddiant diweddaru ar y Côd, gan fod yr hyfforddiant a ddarparwyd ar bob agwedd o'r Cyngor ers yr etholiad yn sylweddol iawn.
Nodwyd hefyd fod cyngor ar gael bob amser i’r Aelodau a hynny oddi wrth y Swyddog Monitro a’r Swyddogion Safonau, drwy e-bost ac yn bersonol.

Diolchodd y Cadeirydd i’r Arweinyddion am ddod i’r cyfarfod.

**6 Templed Cydymffurfio Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol**
**Templed Cydymffurfio Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol**

Adroddwyd bod Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol yn destun dwy ddyletswydd statudol newydd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021:
• Cymryd camau rhesymol i hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau o'r grŵp
• Cydweithredu â’r Pwyllgor Safonau wrth arfer swyddogaethau'r pwyllgor safonau.

Roedd y Pwyllgor Moeseg a Safonau o dan ddyletswydd i:
• fonitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau gwleidyddol y cyngor gyda'u dyletswyddau, a hefyd
• cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi arweinwyr grwpiau gwleidyddol ar y cyngor ynghylch materion sy'n ymwneud â'r dyletswyddau hynny.

Hefyd roedd y Pwyllgor Moeseg a Safonau o dan ddyletswydd i baratoi adroddiad blynyddol oedd:
a) yn gorfod cynnwys asesiad y pwyllgor o’r graddau y mae arweinwyr y grwpiau gwleidyddol ar y cyngor wedi cydymffurfio â'u dyletswyddau, a
b) gall yr adroddiad gynnwys argymhellion neu sylwadau am hyd a lled y gydymffurfiaeth â'r dyletswyddau newydd hyn.

Adroddwyd bod yr Atodiad yn rhoi manylion y ddeddfwriaeth a'r canllawiau statudol, a'r templed arfaethedig sy'n seiliedig ar enghreifftiau yng Nghanllawiau Llywodraeth Cymru i atgoffa arweinwyr y grwpiau am y materion sydd i'w cynnwys yn eu hadroddiadau. Roedd y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd ac Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol wedi cyfrannu at ddrafftio'r protocol a'r templed.

CYTUNWYD i GYMERADWYO Templed Cydymffurfio drafft Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol, fel y’i cyflwynwyd.

7 **Cadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau a gynhaliwyd 13 Hydref 2022**

Cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2022 yn gywir
CYTUNWYD i gadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2022 yn gywir.

Materion sy'n codi
Eitem 12 - Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon 2021/22 - anfonwyd cais i swyddfa'r Ombwdsmon am golofn ychwanegol yn y tabl yn Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon a hynny ar gyfer achosion sydd wedi eu cyfeirio ond heb eu hymchwilio. Gwnaethant adrodd y byddant yn ystyried hyn yn eu Llythyr Blynyddol nesaf.

Eitem 13 - Y diweddaraf am broses recriwtio'r Pwyllgor Moeseg a Safonau a'r penodiadau i Is-bwyllgor Safonau Cydbwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru - cyflwynir adroddiad i gyfarfod y Cyngor trannoeth yn cadarnhau cymeradwyo Gail Storr yn aelod annibynnol/lleyg o'r Pwyllgor Moeseg a Safonau oddi ar 30 Gorffennaf 2023 hyd 27 Gorffennaf 2029.

Eitem 16 - cafodd hon ei haddasu a'i hystyried o dan eitem 7 ar yr agenda. Roedd y Datganiad o Weledigaeth a'r Hyfforddiant ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned yn y Flaenraglen Waith er ystyriaeth.

Eitem 17- Roedd Fforwm Safonau Cadeiryddion Cymru Gyfan wedi cael ei ohirio cyn y Nadolig a byddai'n cael ei gynnal bellach ar 27/1/23. Roedd Swyddogion Monitro cynghorau Ceredigion a Phowys yn darparu cefnogaeth arall i'r Pwyllgor.

8 **Cofnod o Gamau Gweithredu**

CYTUNWYD i nodi'r Cofnod o'r Camau Gweithredu fel y'i cyflwynwyd, ar yr amod yr ystyrir rhoi colofn ychwanegol gyda'r Statws Coch Melyn Gwyrdd ar gyfer pob eitem.

9 **Ystyried ceisiadau am ollyngiadau gan y Cynghorwyr canlynol:**

Gwnaeth y Swyddog Monitro gynghori'r Pwyllgor ynghylch y ceisiadau am ollyngiad a gafwyd oddi wrth gynghorwyr Cyngor Tref Ceinewydd a'r wybodaeth ychwanegol yr hoffai'r Pwyllgor ei chael cyn ystyried y ceisiadau.
Parthed sail (a) am ollyngiad, rhoddwyd y cyngor canlynol:
Canllawiau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, paragraff 3.51:
"Dim ond y Pwyllgor Safonau all ganiatáu'r oddefeb a bydd yn gwneud hynny yn ôl ei ddisgresiwn.
Bydd angen i'r Pwyllgor Safonau gydbwyso budd y cyhoedd o ran atal aelodau sydd â buddiannau rhagfarnus rhag cymryd rhan mewn

penderfyniadau, yn erbyn budd y cyhoedd mewn penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan grŵp gweddol gynrychioliadol o aelodau'r Cyngor.
Os bydd methu rhoi caniatâd yn golygu na fydd cyngor neu bwyllgor yn sicrhau cworwm, mae'n ddigon posibl y bydd hyn yn sail dros ganiatáu gollyngiad."

Ar ôl trafod penderfynodd y Pwyllgor ohirio'r gwaith o benderfynu ar y ceisiadau hyn a gofyn am y wybodaeth ganlynol oddi wrth y Clerc:
• Faint o Gynghorwyr sydd ar Gyngor Tref Ceinewydd?
• Faint o Gynghorwyr sy'n gorfod bod yn bresennol er mwyn bod cworwm yn y Cyngor?
• Beth yw hanes a chyd-destun y ceisiadau hyn?
• A oes problem wedi bod o ran cworwm?
• A yw pob cynghorydd sy'n weddill - sydd heb wneud cais am ollyngiad - yn gallu pleidleisio?
• Os ceisir am ollyngiad er lles y gymuned, i ddatgan pam
• A oes canllawiau ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned sy'n ymateb i geisiadau cynllunio fel ymgyngoreion statudol?
• Ystyried gwahanu materion cynllunio a materion treth y cyngor/ ardrethi busnes mewn ceisiadau am ollyngiad
• A oes angen i Gyngor y Dref fynd i'r afael ag unrhyw faterion ar frys?
• Beth yw'r diffyg democrataidd os na roddir gollyngiad?

Mae'r Pwyllgor yn gofyn i'r clerc ddarparu ymateb drwy e-bost ac yn dweud bod croeso i'r clerc neu'r Cynghorwyr Tref ddod i'r cyfarfod nesaf.

**10 Cynghorydd Brett Stones, Cyngor Tref Cei Newydd**

**11 Cynghorydd Jennifer Davies, Cyngor Tref Cei Newydd**

**12 Cynghorydd Julian Evans, Cyngor Tref Cei Newydd**

**13 Cynghorydd Sioned Davies, Cyngor Tref Cei Newydd**

a) Cynghorydd Tomos Davies, Cyngor Tref Cei Newydd

b) Cynghorydd Ywain Davies, Cyngor Tref Cei Newydd

**14 Canllawiau a Phroses yr Ombwdsmon ar gyfer Cwynion y Côd Ymddygiad**

CYTUNWYD i nodi cynnwys y llythyr.

**15 Cysoni'r trothwyon ar gyfer rhoddion / lletygarwch ar draws pob Awdurdod yng Nghymru**

Cysoni'r trothwyon ar gyfer rhoddion / lletygarwch ar draws pob Awdurdod yng Nghymru

Adroddwyd bod Swyddogion Monitro yng Nghymru yn ystyried a yw'n addas gofyn am farn y Pwyllgorau Safonau ynghylch cytuno ar drothwy cyffredin ymhlith holl awdurdodau Cymru, er mwyn cael cysondeb. Mae nifer o awdurdodau wedi dangos diddordeb mewn cael dull unedig. Gofynnwyd am farn y Pwyllgor Safonau ynghylch a oedd cefnogaeth i gymryd y cam hwn, a

beth ddylai'r gwerth fod. Gan fod lefel bresennol Cyngor Sir Ceredigion (£21) yn is na'r gwerth sydd fwyaf cyffredin (£25), gofynnwyd am farn y Pwyllgor ynghylch cytuno mewn egwyddor i gynyddu trothwy Cyngor Sir Ceredigion o £21 i £25.

Pleidleisiodd y pwyllgor fel a ganlyn:

1 Yn erbyn
2 Yn erbyn
3 Yn erbyn
4 Yn erbyn

Ar ôl trafod, CYTUNWYD hefyd ar y canlynol:

Bod amrywiaeth leol yn dderbyniol, er y cytunnir mewn egwyddor â'r syniad o gysondeb.

Trafododd y Pwyllgor a ddylai'r Aelodau dderbyn rhoddion yn ogystal ag effaith gronnol rhoddion a oedd, ar eu pen eu hunain, yn disgyn o dan y trothwy. Dylai'r trothwy ar gyfer rhoddion i Aelodau'r Cyngor a Swyddogion fod yn cyd-fynd â'i gilydd.

Bydd y Pwyllgor yn ystyried y cynnig hwn ymhellach a bydd yn cael ei roi yn y Flaenraglen Waith i'w ystyried. Felly hefyd, o bosib, gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, yn ôl yr angen. Dim ond y Cyngor all wneud newidiadau i'r Côd.

**16 Diweddariad y Swyddog Monitro ynghylch y Cod Ymddygiad - Chwarter 3 (Medi - Rhagfyr 2022)**

Rhoddwyd diweddariad i'r Pwyllgor am y gweithgarwch o ran cwynion a thueddiadau diweddar. CYTUNWYD i nodi cynnwys yr adroddiad.

**17 Canfyddiadau Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus**

CYTUNWYD i nodi cynnwys yr adroddiad.

Os oes achos o fynd yn groes i'r Côd, byddai'n ddefnyddiol pe bai llythyr yn mynd at y Cynghorydd, hyd yn oed os nad oedd angen cymryd camau pellach.

**18 Hunanwerthusiad y Pwyllgor Moeseg a Safonau**

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau ar 13 Hydref, cytunwyd y byddai papur ar hunanwerthusiad y Pwyllgor Moeseg a Safonau yn cael ei ystyried yn y cyfarfod nesaf.

Roedd y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Swyddogion wedi cyfarfod ac wedi drafftio holiadur er mwyn hunanwerthuso'r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn flynyddol. Cyflwynwyd yr holiadur arfaethedig a chynigiwyd bod hunanwerthusiad yn cael ei gwblhau yn flynyddol gan aelodau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau ar ddiwedd blwyddyn y cyngor.

CYTUNWYD i roi rhagor o ystyriaeth i'r hunanwerthuso o ran cael gwared ar yr opsiwn canolig yn yr holiadur hunanwerthuso ac ychwanegu cwestiwn ar effeithiolrwydd y Pwyllgor o ran llwyth gwaith agenda'r pwyllgor. Gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor anfon eu hadborth ar yr hunanwerthuso erbyn y cyfarfod nesaf.

19 **Cynlluniau hyfforddi Cynghorau Tref a Chymuned**
CYTUNWYD i nodi cynnwys yr adroddiad.

20 **Blaenraglen Waith**
CYTUNWYD i nodi cynnwys y Flaenraglen Waith.

21 **Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Pwyllgor**

Dim.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Safonau a Moeseg a gynhaliwyd ar Dydd Mercher, 19 Ebrill 2023**

**Cadeirydd:________________**

**Dyddiad:__________________**